
Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Pecyn Cymorth CCC

# Lleoliad Clinigol

## Proffesiynoldeb mewn ceiropracteg

Pecyn Cymorth



Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

# Cynnwys


**1. Rhagarweiniad**
- Diben y pecyn cymorth
- I bwy y mae
- Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth

**2. Deall Lleoliad Clinigol o fewn Addysg Ceiropracteg**
- Diffiniadau o leoliad clinigol a phwysigrwydd
- Trosolwg o fodelau lleoliad clinigol cyfredol yn y DU
- Alinio â'r Safonau Addysg


**3. Sefydlu lleoliad clinigol allanol**
- Cam 1 - Adnabod Cyfleoedd Lleoliad
- Cam 2 - Sefydlu Partneriaethau
- Cam 3 - Sicrwydd Ansawdd ac Arfer Gorau

**4. Cefnogi dysgu myfyrwyr yn ystod lleoliad**
- Gwreiddio dysgu rhyngbroffesiynol
- Alinio â Deilliannau Dysgu
- Annog arfer myfyriol
- Rhoi a derbyn adborth gan fyfyrwyr

**5. Meithrin capasiti ac arloesedd**
- Strategaethau ar gyfer cynyddu cyfleoedd lleoliad
- Modelau lleoliad arloesol
- Ariannu ac ystyriaethau cynaliadwyedd

**6. Ymgysylltu'r proffesiwn ag addysg**
- Cynigion Datblygiad Proffesiynol Parhaus
- Datblygu Cymuned Ymarfer ar gyfer addysgwyr clinigol
- Strategaethau cyfathrebu ar gyfer meithrin ymgysylltiad proffesiynol

**7. Rhestr Wirio Archwilio Lleoliad Clinigol**


# 1. Rhagarweiniad

## Diben y pecyn cymorth

Datblygwyd y pecyn cymorth hwn i gynnig arweiniad a chefnogaeth gynhwysfawr i'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n ymgysylltu â lleoliadau clinigol o fewn addysg ceiropractig neu'n gobeithio datblygu un. Ei nod yw cefnogi addysgwyr, goruchwylwyr clinigol a myfyrwyr trwy gynnig cyngor ymarferol, arferion gorau ac adnoddau i gyfoethogi ansawdd ac effeithiolrwydd lleoliadau clinigol. Cynllunnir y pecyn cymorth i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â Safonau Addysg[1] y Cyngor Ceiropractig Cyffredinol (CCC), gan hyrwyddo profiadau dysgu o ansawdd uchel a diogelwch cleifion.


## I bwy y mae

Mae'r Pecyn Cymorth hwn wedi'i fwriadu at gynulleidfa amrywiol sy'n gysylltiedig ag addysg ceiropractig, gan gynnwys:




**Addysgwyr**

Staff academaidd sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflwyno rhaglenni ceiropracteg.



**Addysgwyr lleoliad**

Ceiropractyddion neu weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi'u rheoleiddio sy'n goruchwylio ac yn mentora myfyrwyr yn ystod eu lleoliad clinigol.




**Dysgwyr**

Myfyrwyr ceiropracteg sy'n ymgymryd â lleoliad clinigol fel rhan o'u haddysg.




**Darparwyr lleoliad**

Sefydliadau a chlinigau sy'n cynnig cyfleoedd lleoliad ar gyfer myfyrwyr ceiropracteg.



**Grwpiau eraill**

Cyrff rheoleiddio, cymdeithasau neu golegau sy'n gosod safonau a/neu ganllawiau ar gyfer addysg ceiropracteg.

## Sut i ddefnyddio'r pecyn cymorth

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i strwythuro i fod yn hawdd ei ddefnyddio ac yn ymarferol. Dyma sut i wneud y gorau o'i gynnwys.

1. Llywio fesul adrannau: Mae pob adran o'r pecyn cymorth yn mynd i'r afael ag agweddau penodol ar leoliadau clinigol, o sefydlu lleoliadau i gefnogi dysg myfyrwyr a sicrwydd ansawdd.
2. Dilyn canllawiau fesul cam: Rhoddir camau manwl i gynorthwyo'r broses o sefydlu lleoliadau, ffurfio partneriaethau, a sicrhau ansawdd. Canllawiau yw bwriad y rhain ac nid ydynt yn brosesau caeth i'w dilyn.
3. Defnyddio adnoddau a rhestrau gwirio: Cyrchwch y rhestrau gwirio a ddarperir i symleiddio prosesau a chefnogi cydymffurfiad â safonau.
4. Cynnwys arferion gorau: Dysgwch o'r arferion gorau a modelau arloesol y tynnir sylw atynt yn y pecyn cymorth i gyfoethogi ansawdd y lleoliadau clinigol.
5. Ymgysylltu â'r cynnwys: Myfyriwch ar yr arweiniad a roddir, ei addasu i'ch cyd-destun penodol, ac ymgysylltu â'r gymuned addysg ceiropracteg ehangach i rannu mewnwelediadau a phrofiadau.

# 2. Deall Lleoliad Clinigol o fewn Addysg Ceiropracteg

## Diffiniadau o leoliad clinigol a phwysigrwydd

Mae galwadau am weddnewid addysg proffesiynau iechyd israddedig[2-4] yn gwneud sawl argymhelliad allweddol ar gyfer arfer gorau sy'n bwysig i ddarparwyr eu hystyried wrth gynllunio eu rhaglenni, gan gynnwys:

1. Gweithredu addysg gynnar[4] a blaengar ar sail cymhwysedd[3], sy'n cyd-fynd â modelau dysgu gweithredol[5]
2. Integreiddio gwybodaeth ffurfiol gyda phrofiad clinigol[4]
3. Cynnig cyfleoedd lle gall dysgwyr gymryd sawl rôl ac ymrwymiad sy'n berthnasol i'w proffesiwn[4]
4. Cynnig cyfleoedd ar gyfer addysg ryngbroffesiynol ac ymarfer cydweithredol[2].

***Dysgu drwy brofiadau***[6] yw'r rhan o addysg glinigol lle mae dysgwyr yn ennill profiad sy'n galluogi iddynt ddatblygu a chymhwyso gwybodaeth a sgiliau wedi'u dysgu wrth ofalu am gleifion. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd da i gymhwyso'r argymhellion uchod.

Mae ***lleoliadau clinigol*** yn cynnig ffurf ar ddysgu drwy brofiadau ar sail ymarfer. Yn y pecyn cymorth hwn, diffinnir lleoliad clinigol fel unrhyw drefniant lle mae dysgwr yn bresennol, at ddibenion addysgol, mewn amgylchedd sy'n cynnig gofal iechyd, neu wasanaethau cysylltiedig, i gleifion neu'r cyhoedd[7, 8]. Ar gyfer myfyrwyr ceiropracteg, gallai lleoliad clinigol gynnwys gwasanaethau clinigol ceiropracteg neu nad yw'n geiropracteg, ynghyd â lleoliadau o fewn safleoedd allanol neu fewnol, gydag amrywiaeth o drefniadau posibl ar gyfer goruchwyliaeth. Caiff lleoliadau clinigol eu nodi gan y darparwr, sydd hefyd yn gwneud y trefniadau i ddysgwyr ymgymryd â lleoliadau. Dylai fod gan ddysgwyr gyfleoedd ar gyfer cyswllt uniongyrchol â chleifion ond gallant hefyd ddatblygu profiad o dasgau nad ydynt yn ymwneud â chleifion sy'n gysylltiedig ag ymarfer clinigol proffesiynol. Efallai y byddant yn arsylwi neu'n cynorthwyo gyda thasgau neu gallant gymryd rôl uniongyrchol mewn gofal i gleifion. Yn ychwanegol at ddatblygu sgiliau a gallu clinigol wrth wynebu'r claf, dylai lleoliadau clinigol effeithiol hefyd gefnogi datblygu dysgwyr tuag at fodloni eu deilliannau dysgu ehangach (amlinellir y rhain yn adran 1 Safonau Addysg CCC) a dylent eu paratoi at ymarfer. Wrth i fanteision lleoliadau clinigol gael eu hyrwyddo, rhaid eu hintegreiddio i addysg ceiropracteg i sicrhau capasiti, effeithiolrwydd o ran cost ac amgylchedd dysgu effeithiol.

Mae ***interniaethau mewn safleoedd mewnol*** yn ffurf ar leoliad clinigol. Yn y sefyllfa hon, gallai darparwr neu sefydliad y rhaglen hefyd fod yn ddarparwr lleoliad. Mae goruchwylwyr clinig interniaeth yn cael eu hystyried ***yn addysgwyr lleoliad clinigol***.

Defnyddir ***lleoliadau practis*** yn y pecyn cymorth hwn lle mae lleoliadau clinigol ar gyfer myfyrwyr ceiropracteg yn digwydd *oddi ar y safle*, mewn practisau y tu hwnt i sefydliad academaidd h.y. yn y maes/gweithle. Gall y rhain gynnig dysg a phrofiad gwerthfawr yn y 'byd go iawn' a gallai gynnwys lleoliadau o fewn:

- Practisau ceiropracteg
- Lleoliadau practis amlddisgyblaeth neu nad yw'n geiropracteg
- Lleoliadau gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol


Mae sicrwydd ansawdd cadarn yn bwysig ym mhob lleoliad clinigol, ond fe all fod yn arbennig o heriol ar gyfer lleoliadau practis, lle mae angen sicrhau addasrwydd a pharodrwydd darparwyr lleoliad, o'r dewis yn y lle cyntaf hyd at fonitro parhaus ar yr ansawdd addysgol. Ystyriaethau hanfodol yw bod:

- Safleoedd y lleoliadau yn ddiogel i bawb
- Gofynion Safonau Addysg CCC yn cael eu bodloni
- Y profiad i'r myfyriwr a'r deilliannau addysgol o ansawdd uchel
- Cleifion yn cael eu hamddiffyn yn eu hymwneud ag addysg myfyrwyr

## Trosolwg o fodelau lleoliad clinigol cyfredol yn y DU

Nododd ymchwil gan CCC yn 2024 bod darparwyr addysg ceiropracteg yn defnyddio amrywiaeth o fodelau lleoliad clinigol ac arloesiadau i gefnogi dysg eu myfyrwyr. Mae'r rhain yn unol â'r gwahanol fodelau lleoliad sydd hefyd yn cael eu defnyddio gan broffesiynau iechyd eraill. Mae Ffigur 1 yn rhoi trosolwg o'r rhain, gyda nodweddion allweddol o'r modelau lleoliad clinigol cyfredol yn cael eu hamlinellu ymhellach isod.

**Ffigur 1:** Modelau lleoliad clinigol a ddefnyddir ar gyfer rhaglenni ceiropracteg



## Nodweddion allweddol modelau lleoliad clinigol a ddefnyddir ar gyfer rhaglenni ceiropracteg

**1. Mae lleoliadau clinigol yn dechrau'n gynnar ac yn datblygu fesul tipyn**

Mae dysgu drwy brofiadau mewn lleoliadau clinigol yn dechrau gyda phrofiadau dysgu arsylwadol yn y flwyddyn gyntaf o addysg ceiropracteg ac yn datblygu fesul tipyn i fyfyrwyr yn cael cyfrifoldeb ymreolaethol dros ddarparu gofal ceiropracteg (o dan oruchwyliaeth hyd braich) erbyn diwedd pob rhaglen.

**2. Myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliadau ceiropracteg a rhyngbroffesiynol**

Yn ychwanegol at leoliadau ceiropracteg, mae amrywiaeth o wahanol drefniadau, safleoedd a mathau o brofiad lleoliad rhyngbroffesiynol yn cael eu gweithredu, gan gynnwys rhai safleoedd GIG.

**3. Mae lleoliadau blwyddyn olaf mewn clinigau ar y safle**

Mae gan yr holl ddarparwyr clinig ar y safle ('uned addysg ymroddedig') y byddant yn ei ddefnyddio trwy gydol eu rhaglen a lle bydd mwyafrif y lleoliadau clinigol blwyddyn olaf yn digwydd.

**4. Defnyddir clinigau ar y safle yn arloesol**

Mae Safonau Addysg newydd CCC wedi symud y tu hwnt i'r ffocws ar fewnbynnau (megis nifer y cleifion neu oriau cyswllt) i ofynion sydd wedi'u seilio ar allbynnau dysgu drwy brofiadau clinigol, gan ganiatáu hyblygrwydd cynyddol ar sut y gellir trefnu hyn a hyrwyddo dysgu rhyngbroffesiynol cynyddol. Tra bod rhaglenni yn dal i gynnwys mwyafrif dysgu drwy brofiadau clinigol blwyddyn olaf ar y safle, bu arloesiadau yn sut y mae lleoliadau ar y safle yn cael eu defnyddio i alluogi profiadau dysgu newydd i fyfyrwyr. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. *Integreiddio model dysgu cydweithredol ar waith (CLiP) yn y lleoliad* - mae hyn yn tynnu ar ddysgu rhwng cyfoedion, lle mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu gofal i gleifion yn cael ei rannu yn y lle cyntaf a dysgwyr yn cefnogi ei gilydd, cyn symud ymlaen at gyfrifoldeb llwyr dros ofal eu cleifion eu hunain. Yn unol â'r model dysgu i oedolion cynyddol, maen nhw'n datblygu eu hymreolaeth ac yn symud ymlaen yn y pendraw i gymryd rôl mentor ar gyfer dysgwyr eraill.

ii. *Profiad o wasanaethau llesiant ac iechyd cyhoeddus* - gallai'r rhain gael eu hystyried yn fodel lleoliad rolau sy'n ymddangos (neu rôl/lleoliad annhraddodiadol). Ymhlith yr enghreifftiau y mae dysgwyr yn cael eu hyfforddi ac yn darparu gwiriadau iechyd GIG am ddim neu'n gweithio ochr yn ochr â hyfforddwyr ffordd o fyw gwella llesiant o fewn clinig ar y safle.

iii. *Gallai gweithwyr proffesiynol a myfyrwyr iechyd eraill gyflwyno gwasanaethau arbenigol gyda myfyrwyr ceiropracteg* - Yn y model lleoliad rhyngbroffesiynol hwn, mae myfyrwyr ceiropracteg yn gweithio ochr yn ochr â phroffesiynau eraill i gyflwyno gwasanaethau arbenigol megis gofal pediatrig, chwaraeon ac i'r henoed.

iv. *Mae dysgu grŵp yn cael ei drefnu a'i gyflwyno o fewn lleoliadau* - gallai dysgu o fewn lleoliadau mewn clinigau ar y safle gael eu strwythuro i alluogi myfyrwyr i gymryd rhan ac elwa o brofiadau dysgu grŵp. Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau trafod achos wedi'u trefnu y mae grwpiau o fyfyrwyr yn cymryd rhan ynddynt.

v. *Mae myfyrwyr yn mynychu cyfarfodydd clinigol tîm amlddisgyblaeth sefydliadol (MDT) a rowndiau grand* - mae myfyrwyr ceiropracteg yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd MDT rheolaidd a sesiynau rowndiau grand sy'n cael eu sefydlu ar draws rhaglenni disgyblaethau iechyd. Gallent fynychu'r rhain wyneb yn wyneb yn eu lleoliad clinigol, ac maen nhw hefyd yn cael eu ffrydio fel y gallai myfyrwyr a staff eraill fynychu.

**5. Sefydlir lleoliadau practis (lleoliadau ceiropracteg) ar gyfer rhai rhaglenni**

Lleolir dysgwyr yn lleoliadau clinig ceiropracteg preifat sydd oddi ar y safle, trwy 3 blynedd gyntaf y rhaglen israddedig. Yn y lleoliadau hyn, ceir goruchwyliaeth 1:1 rhwng myfyriwr ac addysgwr practis. Mewn rhai enghreifftiau mae'r dysgu trwy arsylwi i raddau helaeth. Nid yw myfyrwyr yn cael eu hasesu yn eu practis ond yn cael eu hasesu ar ddiwedd y flwyddyn ar sail gwaith myfyriol. Mae model amgen yn diffinio deilliannau dysgu ar gyfer lleoliadau sydd wedi'u hintegreiddio'n dynn â'r cwricwlwm academaidd ac yn cael eu hasesu o fewn y lleoliadau practis. Ceir ymwneud graddol y myfyriwr yn narpariaeth gofal cleifion dan oruchwyliaeth wrth iddynt gyflawni galluoedd.

**6. Lleoliadau practis mewn lleoliadau nad ydynt yn geiropracteg/rhyngbroffesiynol**

Mae nifer o wahanol fathau o leoliadau yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd mewn lleoliadau annhraddodiadol, lle mae gofal yn cael ei ddarparu gan weithwyr iechyd neu ofal proffesiynol o ddisgyblaethau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. Lleoliadau ysbyty - e.e. mynychodd barau o fyfyrwyr leoliad bloc byr (1 wythnos), gan arsylwi ar ystod o brofiadau (e.e. llawfeddygaeth orthopedig, clinigau toriadau asgwrn, rowndiau ward) ac yn ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill (e.e. cofrestryddion, llawfeddygon, nyrsys).

ii. Lleoliadau tîm rhyngbroffesiynol o fewn ymddiriedolaethau GIG - e.e. myfyrwyr yn cael eu rhoi ar wardiau neu dimau (e.e. tîm gofal therapiwtig, ward adsefydlu), gan arsylwi a hefyd cymryd rhan o fewn y rôl tîm.

iii. Cylchdroadau mewn lleoliadau eraill (e.e. deintyddiaeth, cartref gofal, uned strôc), lle mae myfyrwyr yn mynychu grwpiau bach, yng nghwmni goruchwylydd.

iv. Mynediad rhithwir wythnosol i gyfarfodydd MDT sbinol ysbyty GIG lleol y mae myfyrwyr yn eu cylchdroi er mwyn eu profi dwy neu dair gwaith


v. Gwasanaethau arbenigol amlddisgyblaethol o fewn clinigau ar y safle - e.e. lle mae gweithwyr iechyd proffesiynol eraill yn cael eu dwyn i mewn i glinig ar y safle a bydd myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliadau dethol o fewn y gwasanaeth (gweler hefyd clinigau ar y safle, uchod)

vi. Cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth ar y safle (wyneb yn wyneb ac wedi'u ffrydio, gweler hefyd clinigau ar y safle uchod))

vii. Lleoliad teleiechyd (brysbennu) lle mae israddedigion yn cysylltu â chleifion, gan geisio datrys eu hanghenion iechyd a'u cyfeirio at y gwasanaethau cywir.

**7. Lleoliadau practis yn y gymuned**

Mae'r rhain yn cynnwys mentrau iechyd 'naid' lle bydd myfyrwyr o wahanol ddisgyblaethau iechyd, ynghyd â phartneriaid allanol, yn cydweithio i gynnig gwasanaeth galw heibio gan roi cyngor gofal iechyd, cefnogaeth a chyfeirio.



# Alinio â'r Safonau Addysg

Ystyriaeth bwysig wrth gynllunio rhaglenni ceiropracteg yw sicrhau bod yr holl leoliadau clinigol yn bodloni Safonau Addysg CCC. Mae Adran 1 ac Adran 2 yn cynnwys Safonau sy'n berthnasol i leoliadau clinigol.

### Adran 1 Safonau Addysg

Mae Safonau yn Adran 1 yn mynd i'r afael â chynnwys cwricwlwm, gan nodi'r deilliannau dysgu sy'n ofynnol o raglen. Mae'r Safonau hyn wedi'u trefnu yn bum parth:

- **A** Gofal cleifion
- **B** Diogelwch ac ansawdd
- **C** Proffesiynoldeb
- **D** Dulliau clinigol
- **E** Gofal iechyd cydweithredol

Bydd llawer o'r deilliannau dysgu a nodir gan y Safonau hyn yn cael eu datblygu trwy'r profiadau dysgu a enillir yn ystod lleoliadau clinigol. Ymhellach, bydd rhai o'r deilliannau dysgu yn cael eu hasesu yn ystod, neu ar ddiwedd y lleoliadau clinigol. Noda Safon 22.1 (yn Adran y Safonau Addysg) bod yn rhaid i ddarparwyr:

> *Gynllunio dysgu drwy brofiadau clinigol i fod ar sail deilliannau, gan alluogi i ddysgwyr gyflawni'r holl ddeilliannau dysgu perthnasol yn Adran 1 Safonau Addysg CCC ac i ennill profiad digonol o ofalu am gleifion i'w paratoi ar gyfer ymarfer.*

Gan hynny rhaid i ddarparwyr ystyried ac arddangos sut mae eu lleoliadau clinigol yn cyfrannu at Safonau yn Adran 1, gan gynnwys sut y bydd y ddysg yn cael ei datblygu trwy leoliadau a sut y bydd y deilliannau dysgu perthnasol yn cael eu hasesu.

### Adran 2 Safonau Addysg


Amlinella Safon 2 Safonau Addysg ofynion ar sut y mae rhaglen yn cael ei chynllunio, ei chyflwyno, ei hasesu a'i monitro. Mae'r 5 parth yn mynd i'r afael â:

- **F** Y rhaglen
- **G** Adnoddau
- **H** Addysgu, dysgu ac asesu
- **I** Cleifion
- **J** Dysgwyr

Gan fod lleoliadau clinigol yn rhan annatod o raglen, bydd y rhan fwyaf o'r Safonau yn y parthau hyn yn gymwys i leoliadau clinigol (ynghyd ag agweddau eraill ar y rhaglen). Mae'r '*disgwyliad*' sy'n dilyn pob Safon yn esbonio'r gofynion yn fanylach.

### Cyngor atodol

Mae cyhoeddiad CCC *Cyngor Atodol i'r Safonau Addysg 2023: Lleoliadau Clinigol* yn rhoi cyngor manwl ar yr hyn y dylai neu y gallai darparwyr ei wneud i sicrhau eu bod yn bodloni Safonau Addysg, yng nghyd-destun lleoliadau clinigol.



# 3. Sefydlu lleoliad clinigol allanol

## Cam 1 - Adnabod Cyfleoedd Lleoliad

- Mathau o safleoedd lleoliad
- Ystyriaethau ar gyfer dethol darparwyr lleoliad

1

Fel sydd wedi'i ddisgrifio, mae llawer o fformatau ar gyfer lleoliadau clinigol sy'n cynnig amrywiaeth o safleoedd lleoliadau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ond mae'n fan cychwyn da ar gyfer ystyried safleoedd lleoliadau personol yn briodol.

- **Practisau ceiropracteg**: Clinigau ceiropracteg lle gall myfyrwyr arsylwi a chymryd rhan mewn agweddau ar ofal cleifion sy'n berthnasol i'w cam ar y siwrnai ddysgu.
- **Arferion amlddisgyblaeth:** Lleoliadau sy'n cynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, yn darparu profiad dysgu ehangach.
- **Lleoliadau gofal cymdeithasol neu iechyd cymunedol**: Amgylcheddau lle gall myfyrwyr ymgysylltu â mentrau iechyd cymunedol a gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- **Lleoliadau ysbyty**: Cyfleoedd i arsylwi a chymryd rhan mewn amryw adrannau ysbyty.
- **Gwasanaethau teleiechyd:** Rhith-leoliadau lle gall myfyrwyr ddysgu am ofal a brysbennu cleifion o bell.

Mae sawl agwedd ar addysg lleoliad i'w hystyried wrth edrych ar sefydlu darparwyr lleoliad a chyfleoedd ar gyfer myfyrwyr mewn lleoliadau a gyflwynir uchod. Amlinellir rhai enghreifftiau pwysig isod:

- **Ansawdd addysgol**: Sicrhau bod man y lleoliad yn gallu cynnig profiadau dysgu o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd â Safonau Addysg CCC[1].
- **Diogelwch cleifion**: Gwiriwch fod y darparwr lleoliad yn gallu cynnal safonau uchel o ddiogelwch cleifion ac arfer moesegol gyda myfyrwyr yn eu practis.
- **Goruchwyliaeth a chefnogaeth**: Asesu argaeledd a chymwysterau goruchwylwyr clinigol a fydd yn cefnogi myfyrwyr ac yn sicrhau bod hyn yn cyd-fynd â gofynion yswiriant. Sicrhau hefyd bod yr amgylchedd yn ddiogel i gefnogi myfyrwyr. (Rhestr wirio archwilio ynghlwm i gefnogi hyn).
- **Cyfle dysgu**: Gwerthuso ystod o gyfleoedd dysgu sydd ar gael, gan gynnwys gofal uniongyrchol i'r claf, cydweithio rhyngbroffesiynol, a thasgau nad ydynt yn wynebu'r claf.
- **Capasiti ac adnoddau**: Cadarnhau bod gan y darparwr lleoliad y capasiti a'r adnoddau i ddarparu ar gyfer myfyrwyr heb gyfaddawdu ar ansawdd gofal, a/neu addysg.

## Cam 2 - Sefydlu Partneriaethau

- Datblygu cytundebau gyda safleoedd lleoliad
- Rolau a chyfrifoldebau


2

O ystyried natur ffurfiol lleoliadau clinigol personol, gall cytundebau fod yn gefnogol o'r bartneriaeth. Mae ganddynt y potensial i ddiffinio disgwyliadau, cytuno ar gapasiti ac egluro gofynion a deilliannau addysgol.

**Rolau a chyfrifoldebau.**

Mae dogfen ddefnyddiol wedi'i datblygu gan y Coleg Ceiropractyddion Brenhinol. Amlinella Safonau Addysgwyr Lleoliad Ceiropracteg 2025 yn glir ddisgwyliadau ar gyfer rhanddeiliaid sy'n ymgysylltu â lleoliad clinigol ac y gellid cyfeirio atynt i gefnogi diffinio rolau a chyfrifoldebau.

Mae lleoliadau clinigol yn gofyn am bartneriaethau effeithiol rhwng rhanddeiliaid allweddol.



## Cam 3 - Sicrwydd Ansawdd ac Arfer Gorau

- Fformatau archwilio ac ystyriaethau Iechyd a Diogelwch
- Mecanweithiau adborth
- Hyfforddiant ar gyfer addysgwyr lleoliad
- Rhestr Wirio Archwilio (Atodiad)

3

Mae prosesau sy'n gysylltiedig â sicrwydd ansawdd o fewn addysg bob amser yn ffactorau pwysig i'w hystyried. Fel profiadau addysgol gwerthfawr, dylai lleoliadau clinigol hefyd fod yn amodol ar brosesau sicrwydd ansawdd cadarn. Bydd yr adran gyntaf yma yn mynd i'r afael â sicrwydd ansawdd ac archwilio safle'r lleoliad, a bydd yr ail adran yn mynd i'r afael â phrofiad dysgu'r myfyriwr.

### Offeryn Archwilio

Mae archwilio yn gydran annatod o Sicrwydd Ansawdd a llywodraethu, gan gynnig adolygiad systematig o amgylchedd lleoliad yn erbyn meini prawf penodol. Mae'n sicrhau bod safleoedd lleoliad clinigol yn bodloni safonau uchel o ran ansawdd a diogelwch, gan ddiogelu cleifion a myfyrwyr. Mae archwiliadau yn helpu i adnabod meysydd gwelliant, gan sicrhau bod lleoliadau yn amgylcheddau dysgu effeithiol ac yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio.

Mae archwiliad o bolisïau, a safle ill dau yn cael eu crybwyll yn ein Cyngor Atodol i'r Safonau Addysg 2023: Lleoliadau Clinigol.

Dylai unrhyw offeryn archwilio gyflawni'r safonau a amlinellir yn y canllawiau os ydynt yn cynnwys gwerthusiad o:

- Bolisi Iechyd a Diogelwch.
- Polisi adrodd ar ddigwyddiadau / damweiniau.
- Asesiad risg gan gynnwys myfyrwyr.
- Polisi rheoleiddio ymbelydredd ïoneiddio (os yw'n gymwys).
- Polisi cyfrinachedd a chydsyniad.
- Polisi cyfle cyfartal.
- Polisi atal a rheoli heintiau.
- Arwyddion COSHH (os yw'n briodol).
- Polisi gweithwyr unigol.
- Polisi gweithdrefnau tân / brys.
- Proses bwlio ac aflonyddu.
- Gweithdrefnau codi ac uwchgyfeirio pryderon / chwythu'r chwiban.
- Gwerthuso'r holl addysgwyr lleoliad wedi'u rheoleiddio yn erbyn y gofrestr statudol berthnasol.

Dylid ceisio tystiolaeth i werthuso'r meysydd hyn i sicrhau amgylchedd diogel cyn i ddarparwyr addysg ddechrau ar leoliadau clinigol mewn safle penodol. Dylai'r gweithdrefnau sicrwydd ansawdd isod fynd i'r afael â'r meysydd a amlinellir uchod.

Dylai gwerthusiad iechyd a diogelwch hefyd ystyried **darpariaeth yswiriant** a fydd yn gwahaniaethu rhwng amgylchedd, statws goruchwylio, a pholisi yswiriant.

Nodyn Pwysig: Cyn caniatáu i fyfyrwyr ymgysylltu â gweithgaredd lleoliad clinigol, dylid gwerthuso yswiriannau sefydliadol yn drylwyr, ynghyd â'ch tîm gwasanaeth cyfreithiol a llywodraethu i sicrhau bod gweithgaredd â'r sicrwydd priodol.

### Sicrwydd Ansawdd a Chyfoethogi Lleoliadau Clinigol

Dylai darparwyr fod â fframwaith Sicrwydd Ansawdd cadarn i fynd i'r afael â'r heriau a ddaw gan amryw leoliadau clinigol. Gallai hyn gynnwys:

- **Casgliad rheolaidd o ddata o ansawdd**: Dylai gweithdrefnau i fonitro, gwerthuso a chyfoethogi ansawdd lleoliadau clinigol yn barhaus gael eu sicrhau o werthusiadau myfyrwyr yn dilyn gweithgaredd lleoliad.
- **Mecanweithiau ar gyfer adborth**: Dylai mecanweithiau ar gyfer adborth yn ôl ac ymlaen rhwng sefydliadau addysg uwch gael eu sefydlu i gryfhau tryloywder a hyrwyddo diwylliant o adborth a gwelliant parhaus.
- **Ymweliadau â darparwyr lleoliad clinigol**: Gan ddibynnu ar hyd y lleoliadau, gallai ymweld â myfyrwyr sydd ar leoliad i'w werthuso fod yn ddefnyddiol. Fel arall, gallai ymweliadau safle anaml i ddiweddaru'r archwilio gynnig cyfle i archwilio gwelliant parhaus.
- **Cyfleoedd cymorth a datblygu**: Gellid defnyddio dyddiau hyfforddi, nosweithiau diweddaru neu weminarau i sicrhau cefnogaeth rhwng cyfoedion ar gyfer addysgwyr lleoliad a sefydliadau addysg uwch.

## Sicrhau profiad dysgu'r myfyriwr

Mae ystyriaethau y dylid mynd i'r afael â nhw i sicrhau bod safon y dysgu a ddarperir gan leoliadau clinigol yn uchel. Dylai hyn fod yn amodol ar broses Sicrwydd Ansawdd gadarn, ynghyd â holl elfennau addysg. Gallai meysydd ffocws allweddol gynnwys:

1. **Ymsefydlu dysgwyr.** Rhoi ymsefydlu priodol i ddysgwyr sy'n dechrau ar leoliad.
2. **Addysgu.** Sicrhau bod cyfleoedd dysgu effeithiol yn bodoli.
3. **Cefnogaeth neu fentora.** Sicrhau bod cefnogaeth ar gael gan addysgwyr lleoliad tra ar leoliad, a chan staff sefydliad pan nad ydynt ar leoliad.
4. **Adborth.** Fel y nodir uchod, gellid ceisio adborth gan fyfyrwyr i sicrhau prosesau gwella parhaus effeithlon.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol bellach yn ymwneud â rolau mewn addysg lleoliad wedi'u chyhoeddi gan Goleg Brenhinol Ceiropractyddion; Safonau Addysgwyr Lleoliad Ceiropracteg 2025.

Awgrymir bod cytundeb ysgrifenedig yn cael ei greu gan y sefydliad addysg sy'n amlinellu ymrwymiad gan y ddau grŵp a allai gynnwys (ond heb ei gyfyngu i): Capasiti, amserlen yr ymrwymiad, cadarnhau yswiriannau, ymrwymiad i ymsefydlu hyfforddiant a datblygiad ac ymrwymiad i gynnal polisïau wedi'u harchwilio trwy gydol amser y cytundeb.

## Gofal Cleifion


Dylid nodi bod sicrhau ansawdd profiadau lleoliad cyn unrhyw weithgaredd myfyriwr yn hanfodol i gynnal safonau uchel gofal cleifion y mae ceiropractyddion yn eu blaenoriaethu. Mae hyn hefyd yn galluogi cyflwyno profiad lleoliad clinigol gwerthfawr i fyfyrwyr.

Hyfforddiant Gorfodol: Cyn i fyfyrwyr ymgysylltu â lleoliadau clinigol sy'n wynebu'r claf, byddai'n arfer gorau sicrhau bod lefel gorfodol o hyfforddiant yn cael ei rhoi i fyfyrwyr. Mae hyn yn helpu i sicrhau o fewn amgylchedd clinigol mae myfyrwyr ym mlynyddoedd cynnar addysg ceiropracteg yn meddu ar wybodaeth gritigol sy'n ofynnol i sicrhau eu bod yn ymddwyn mewn modd priodol a diogel.

Mae testunau hyfforddiant gorfodol a awgrymir yn cynnwys:

- Iechyd a Diogelwch.
- Symud a thrin diogel.
- Cynnal Bywyd Sylfaenol.
- Atal a rheoli haint.
- Diogelu.
- Datrys gwrthdaro.
- Ymwybyddiaeth diogelwch data.
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Caniatâd a Chyfrinachedd.

Nodyn Pwysig: Byddai'n arfer safonol, cyn i unrhyw fyfyrwyr ymgysylltu â lleoliadau clinigol sy'n wynebu'r claf, bod gwiriad **DBS Manwl** yn cael ei gynnal ac unrhyw ddatgeliadau am y myfyriwr yn cael eu gwerthuso gan gydweithwyr academaidd a phroffesiynol yn unol â pholisïau lleol.



# 4. Cefnogi dysgu myfyrwyr yn ystod lleoliad

## Gwreiddio dysgu rhyngbroffesiynol

Mae Adran 4 y pecyn cymorth yn ystyried sut y gallai dysgu myfyrwyr gael ei gefnogi yn ystod lleoliadau clinigol trwy ystyried:

1) Gwreiddio dysgu rhyngbroffesiynol
2) Alinio'r amryw ddeilliannau dysgu sy'n gymwys i leoliadau clinigol
3) Cynnwys ymarfer myfyriol a dysgu myfyriol yn y lleoliadau clinigol
4) Myfyrwyr yn rhoi ac yn derbyn adborth

Digwydd addysg ryngbroffesiynol pan fydd myfyrwyr o ddau broffesiwn neu fwy yn dysgu am, wrth, a gyda'i gilydd. Gall dysgu rhyngbroffesiynol ddatblygu trwy addysg ryngbroffesiynol, ynghyd â thrwy ryngweithiadau eraill rhwng myfyrwyr gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol tra'u bod mewn lleoliadau addysgol neu bractis clinigol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cydnabod gwerth dysgu rhyngbroffesiynol i ddatblygu sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer cymhwyso cydweithio rhyngbroffesiynol o fewn lleoliadau practis clinigol (IPP). Dengys tystiolaeth[2] bod lleoliadau practis clinigol, yn eu tro, yn arwain at:

- lefelau uwch o fodlonrwydd cleifion
- derbyniad gofal gwell
- deilliannau iechyd gwell
- Gofal a diogelwch gwell i'r claf, gyda gostyngiad mewn gwallau clinigol

Mae pwysigrwydd addysg ryngbroffesiynol, wrth ddatblygu IPP i'w weld yn Safonau Addysg CCC. Yn Adran 1, amlinellir cyfres o ddeilliannau dysgu perthnasol i fyfyrwyr ym Mharth D: gofal iechyd cydweithredol. Yn Adran 2, mae'r safonau yn amlinellu gofynion addysg ryngbroffesiynol ar gyfer y ffordd y mae rhaglenni yn cael eu cynllunio i gefnogi dysgu rhyngbroffesiynol, a gofyniad penodol hefyd bod dysgu drwy brofiadau clinigol yn hyrwyddo IPP:

23. Gwreiddio dull rhyngbroffesiynol o fewn strwythur y rhaglen, megis y dysgwyr yn ennill dealltwriaeth o broffesiynau eraill ac yn datblygu dulliau cydweithredol tuag at ofal iechyd

38.4. Sicrhau bod dysgu drwy brofiadau clinigol yn hyrwyddo ymarfer rhyngbroffesiynol, cydweithredol, er lles gorau cleifion, a bod dulliau priodol o asesu cymhwysedd yn hyn yn cael eu cymhwyso

Ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol bellach yw cymwyseddau craidd IPP a nodir gan Gydweithrediad Addysg Rhyngbroffesiynol (IPEC)[9]. Trefnir y rhain yn 4 thema:

1. Gwerthoedd a Moeseg - Gweithio gydag aelodau tîm i gynnal hinsawdd o werthoedd ar y cyd, ymddygiad moesegol, a pharch ar y cyd.
2. Rolau a Chyfrifoldebau - Defnyddio gwybodaeth rôl eu hunain ac arbenigedd aelodau'r tîm i fynd i'r afael â deilliannau iechyd unigol a'r boblogaeth.
3. Cyfathrebu - Cyfathrebu mewn ffordd ymatebol, gyfrifol, parchus, a thosturiol gydag aelodau tîm.
4. Timau a Gwaith Tîm - Cymhwyso gwerthoedd ac egwyddorion gwyddor gwaith tîm i addasu rôl eu hunain mewn amrywiaeth o leoliadau tîm.

Mae gwerthusiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth yn ymchwilio i addysg ryngbroffesiynol i'w cael mewn adolygiad cwmpasu gan Patel et al (2025)[10]. Daw i'r casgliad bod tystiolaeth sy'n cefnogi'r datblygiad gan fyfyrwyr proffesiynau iechyd o'r cymwyseddau IPEC fel deilliannau i addysg ryngbroffesiynol. Mae'r adolygiad hefyd yn nodi ac yn amlinellu tystiolaeth ar gyfer deilliannau addysgol cadarnhaol a negyddol addysg ryngbroffesiynol. Ymhlith effeithiau cadarnhaol addysg ryngbroffesiynol y mae gwelliannau sylweddol o fewn:

- Eglurder rôl
- Sgiliau cyfathrebu
- Dynameg gwaith tîm

Ymhlith yr effeithiau negyddol a nodwyd mae:

- Heriau logistaidd
- Materion rhyngbersonol megis dynameg pŵer
- Rhwystrau cyfathrebu
- Baich y llwyth gwaith ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer gweithgareddau addysg ryngbersonol

Wrth ddatblygu modelau lleoliad clinigol sy'n gwreiddio IPP, bydd angen i ddarparwyr ystyried a mynd i'r afael â'r heriau hyn a nodir wrth weithredu arferion gorau, i gefnogi dysg myfyrwyr trwy leoliadau a chyfoethogi ymhellach effeithlonrwydd addysg ryngbroffesiynol.

Mae nifer o raddfeydd wedi'u dilysu y gallai darparwyr a/neu ddysgwyr eu defnyddio i werthuso agweddau ar addysg ryngbroffesiynol/dysgu rhyngbroffesiynol yn eu rhaglenni. Manylir y rhain yn gynhwysfawr mewn adolygiad systematig o offerynnau hunan-adrodd mewn addysg proffesiynau iechyd israddedig gan Allvin et al (2024)[11].

## Alinio â Deilliannau Dysgu

Ystyriaeth bwysig yw bod lleoliadau clinigol wedi'u dylunio, eu cynllunio a'u gweithredu i roi cyfleoedd ar gyfer dysgu a deilliannau dysgu cadarnhaol i fyfyrwyr. Amlinella ran hon y pecyn cymorth y berthynas rhwng:

1. Safonau Addysg CCC
2. Deilliannau dysgu'r rhaglen, a
3. Deilliannau dysgu ar gyfer lleoliadau clinigol unigol

1) **Safonau Addysg CCC**: Dylai'r cyfleoedd dysgu a ddarperir trwy leoliadau clinigol sicrhau bod y myfyriwr yn ennill ehangder o brofiad ac yn datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r cymhwysedd sy'n ofynnol ar gyfer cofrestru (a amlinellir yn adran 1 Safonau Addysg CCC) fel y nodir yn Adran 2:

   38.1. Sicrhau bod addysgu, dysgu ac asesu clinigol yn galluogi i ddysgwyr ddatblygu fesul tipyn a chyflawni cymhwysedd yn y deilliannau dysgu a nodir yn Adran 1 y Safonau Addysg


2) **Deilliannau dysgu'r rhaglen**: Dylid cael cynllun clir ar gyfer sut y bydd y lleoliad clinigol yn cyfrannu at helpu'r dysgwr i ddatblygu tuag at fodloni deilliannau dysgu'r *rhaglen* sy'n berthnasol i bob cam o'u hyfforddiant, a sut y mae hyn yn cyd-fynd â bodloni'r deilliannau dysgu yn Adran 1 Safonau Addysg CCC.

3) **Deilliannau dysgu ar gyfer lleoliadau clinigol**: Yn ychwanegol at ystyried deilliannau dysgu'r *rhaglen*, gall nodi deilliannau dysgu culach wedi'u pennu o flaen llaw ar gyfer pob lleoliad roi cyfeiriad i'r lleoliad clinigol a sicrhau bod dysgwyr ac addysgwyr yn uchafu ar y profiad lleoliad clinigol gwerthfawr. Dylai deilliannau dysgu lleoliad ystyried beth y bwriedir i'r dysgwr ei gyflawni yn ystod y lleoliad a dylid ei fframio i fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn berthnasol, yn uchelgeisiol, ac yn synhwyrol ('CAMPUS'). Dylid cael modd o asesu a monitro cynnydd y dysgwr tuag at gyflawni'r deilliannau hyn.

Er mwyn sicrhau y bydd yr holl ddeilliannau dysgu yn cael eu bodloni, bydd angen i ddarparwyr:

- Sicrhau bod digon o gapasiti i ddysgu mewn lleoliadau clinigol, ac y gall dysgwyr gyflawni eu deilliannau dysgu.
- Sicrhau bod darparwyr lleoliad clinigol ac addysgwyr wedi'u paratoi'n dda i dderbyn dysgwyr, gan gynnwys bod yn glir am y deilliannau dysgu ar gyfer y lleoliad
- Sicrhau bod dysgwyr yn glir beth yw eu deilliannau dysgu ar gyfer y lleoliad. Dylai darparwyr ac addysgwyr lleoliadau clinigol gynllunio sesiynau, fel y bydd gan yr holl ddysgwyr gyfleoedd dysgu cyfartal.
- Dylai adborth a gwerthusiad o gynnydd dysgwyr tuag at eu deilliannau dysgu lleoliad fod yn broses actif a pharhaus trwy gydol y lleoliad clinigol.
- Sicrhau eu bod yn monitro a yw dysgwyr wedi cyflawni'r deilliannau dysgu ar gyfer eu lleoliad a gweithredu (yn cynnwys dysgwyr a/neu ddarparwyr lleoliad neu addysgwyr) lle nad yw'r rhain yn cael eu cyflawni.

Amlinella *Cyngor Atodol CCC i'r Safonau Addysg 2023: Lleoliadau Clinigol* [7] argymhellion pellach ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu trwy leoliadau clinigol, ar gyfer paratoi dysgwyr ac addysgwyr ar gyfer lleoliadau, ar gyfer monitro cyfleoedd a phrofiad dysgu, cynnydd dysgwr ac ar gyfer sicrwydd ansawdd a chyfoethogi dysgu trwy leoliadau clinigol.



# Annog arfer myfyriol.

Mae rhan hon y pecyn cymorth yn gwahaniaethu rhwng *ymarfer* myfyriol a *dysgu* myfyriol, ac yn ystyried sut y gallai lleoliadau clinigol gyfrannu at y ddau.

### Ymarfer myfyriol

Myfyrio yw'r broses feddwl lle bydd unigolion yn ystyried eu profiadau i sicrhau mewnwelediadau am eu hymarfer yn gyffredinol. Mae myfyrio yn cefnogi unigolion i wella'n barhaus y ffordd y maen nhw'n gweithio neu ansawdd y gofal y maen nhw'n ei roi i bobl. Mae'n rhan gyfarwydd, barhaus a rheolaidd o waith gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal a phwysleisir ei bwysigrwydd yn y cyd-ddatganiad rheoleiddio Buddion dod yn ymarferwr myfyriol [11]. Mae'r ES[12] yn cynnwys deilliant dysgu lefel 'gwybodaeth' ar gyfer ymarfer myfyriol, y gellir ei ddatblygu trwy leoliadau clinigol:

13.1 Esboniwch werth myfyrio ar resymu clinigol ac ymarfer penderfyniadau a'r angen i gofnodi deilliant myfyrio o'r fath


### Dysgu myfyriol

Ynghyd â datblygu *ymarfer myfyriol*, gall lleoliadau clinigol gynnig cyfleoedd ar gyfer *dysgu myfyriol*, sy'n bwysig ar gyfer troi profiadau go iawn yn dysgu. Nododd adolygiad systematig helaeth gan Macaskill et al (2023) fuddion a adroddwyd o fyfyrio o fewn addysg feddygol a oedd yn cynnwys gwelliannau wrth ddangos empathi tuag at eraill, gan adnabod safbwyntiau lluosog, prosesu meddyliau ac emosiynau, a hunan-ofal. Roedd buddion posibl eraill a oedd yn bresennol mewn rhai dulliau yn cynnwys gwell sgiliau cyfathrebu dwy ffordd, gofal yn canolbwyntio ar y claf, rhyngweithiadau cadarnhaol ag eraill, a datblygu ymddiriedaeth a chyffredinedd. Amlinella'r adolygiad hefyd ddulliau creadigol a ddefnyddir i gefnogi dysgu myfyriol a'i ddeilliannau, gan gynnig cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol y myfyrwyr gan ddefnyddio dulliau arloesol, anghonfensiynol [14].

### Dysgu ac ymarfer myfyriol mewn lleoliadau clinigol

Mae profiadau dysgwyr trwy leoliadau clinigol yn cynnig cyfleoedd da i ddefnyddio dysgu myfyriol ac i hefyd gefnogi datblygu ymarfer myfyriol. Ymhlith y ffyrdd y gellid uchafu ar y rhain yng nghyd-destun lleoliadau clinigol y mae:

- Paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu ac ymarfer myfyriol trwy addysgu a dysgu cyn dechrau ar leoliadau clinigol.
- Cynnwys myfyrdod ar resymu clinigol ac arfer penderfynu, a chofnodi'r myfyrdod hwn, o fewn amcanion wedi'u diffinio ar gyfer lleoliad clinigol.
- Cynnwys offer i gefnogi dysgu myfyriol o fewn deunyddiau lleoliad clinigol (e.e. siwrnalau dysgu) a gwneud myfyrdodau wedi'u cofnodi yn ofyniad (e.e. o fewn portffolios lleoliad clinigol)
- Trefnu lleoliadau clinigol i gynnwys cyfleoedd ar gyfer dysgu myfyriol unigol a/neu grŵp (e.e. sesiynau ôl-drafod, cyfleoedd i ddysgwyr rannu eu gwaith a'u profiadau gyda chyfoedion, ac i sicrhau adborth, cyfleoedd i ddysgwyr dderbyn adborth gan gleifion, neu ddefnyddio hunan-asesu).
- Sicrhau bod addysgwyr lleoliad clinigol wedi'u paratoi a'u cefnogi'n ddigonol i hwyluso dysgu myfyriol (e.e. yn eu gallu i ofyn cwestiynau myfyriol ac yn eu gallu i hwyluso ôl-drafodaeth effeithiol yn dilyn y profiad dysgu[15]).



# Rhoi a derbyn adborth gan fyfyrwyr

Mae mecanweithiau adborth effeithiol yn hanfodol ar gyfer gwelliant parhaus lleoliadau clinigol. Fel y crybwyllwyd yn flaenorol yn y ddogfen hon, mae sicrwydd ansawdd cadarn, sy'n gysylltiedig ag archwilio a gwelliant parhaus, yn cynnwys derbyn adborth gan fyfyrwyr am eu profiadau lleoliad.

Mae rhoi adborth i fyfyrwyr yr un mor bwysig i gefnogi eu siwrnai ddysgu.


### Derbyn adborth gan fyfyrwyr

- Gwelliant parhaus: Mae adborth myfyrwyr yn hanfodol ar gyfer nodi meysydd gwelliant o fewn lleoliadau clinigol. Mae'n helpu'r sefydliad a'r darparwyr lleoliad i ddeall profiad, canfyddiadau a heriau'r myfyrwyr, gan ganiatáu i bob grŵp wneud yr addasiadau angenrheidiol i gyfoethogi deilliannau dysgu.
- System rybuddio ymlaen llaw: Gall adborth gan fyfyrwyr hefyd weithredu fel system rybuddio gynnar ar gyfer problemau posibl o fewn lleoliad. Trwy gasglu a gwerthuso'r adborth hwn yn rheolaidd, gall sefydliadau mynd i'r afael â phryderon yn rhagweithiol a sicrhau amgylchedd dysgu cadarnhaol.
- Mecanweithiau: Gallai amryw fecanweithiau gael eu sefydlu i gasglu adborth myfyrwyr, gan gynnwys sesiynau adborth rheolaidd, arolygon di-enw, ac adolygiadau perfformiad. Dylid cynllunio'r mecanweithiau hyn i greu amgylchedd diogel lle mae myfyrwyr yn teimlo'n gyfforddus i rannu eu barnau a'u profiadau.

### Rhoi adborth i fyfyrwyr

- Cefnogaeth a mentoriaeth: Mae rhoi adborth adeiladol i fyfyrwyr yn hanfodol ar gyfer eu datblygiad proffesiynol ac i wneud y gorau o'u profiadau. Mae adborth gan staff sefydliadol ac addysgwyr lleoliad yn helpu myfyrwyr i ddeall eu cryfderau a'r meysydd gwelliant, gan dywys eu twf a chyfoethogi eu sgiliau clinigol. Dylid datblygu mecanweithiau i feithrin cyfleoedd ar gyfer y rhyngweithiadau hyn.
- Adborth cleifion: Er ei fod yn werthfawr, ac yn cael ei geisio lle bynnag fo hynny'n bosib, dylid bod yn ofalus wrth sicrhau nad yw ffocws rhyngweithiadau clinigol yn symud o ganolbwyntio ar y claf i ganolbwyntio ar y myfyriwr.

Nod cyffredinol lleoliadau clinigol yw cefnogi datblygiad cyfannol myfyrwyr, gan eu paratoi at ymarfer proffesiynol. Mae mecanweithiau adborth effeithiol yn cyfrannu at hyn trwy sicrhau bod myfyrwyr yn derbyn yr arweiniad a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt, ac fe'u hystyrir hefyd yn rhanddeiliaid wrth ddatblygu lleoliadau clinigol dros amser. Bydd cynnwys mecanweithiau adborth yn y broses lleoliad ond yn cyfrannu at y profiadau cadarnhaol parhaus a geir o leoliadau clinigol.



# 5. Meithrin capasiti ac arloesedd

## Strategaethau ar gyfer cynyddu cyfleoedd lleoliad

Mae ehangu ar gapasiti ar gyfer lleoliadau clinigol yn hanfodol i ddarparu ar gyfer nifer cynyddol o sefydliadau ceiropracteg gan edrych ar gynnwys y math hwn o brofiad dysgu i'w cyrsiau. Gall strategaethau a modelau arloesol helpu i gynyddu cyfleoedd lleoliad wrth gynnal safonau addysgol a diogelwch cleifion. Amlinellodd Adran 2 y pecyn cymorth hwn at y modelau cyfredol a ddefnyddir ar hyn o bryd ac mae'n cyffwrdd ar arloesiadau yn y maes. Bydd yr adran hon yn rhoi manylion y rheini yn glir a gobeithio y byddant yn ysbrydoli sefydliadau i 'roi cynnig ar rywbeth newydd'.

### Datblygu Partneriaeth

Mae'n hanfodol sefydlu a chryfhau partneriaeth gydag amrywiaeth o ddarparwyr gofal iechyd, gan gynnwys practisau ceiropracteg preifat, ysbytai ac ymddiriedolaethau GIG lleol, canolfannau iechyd cymunedol a chlinigau amlddisgyblaeth. Gall y partneriaethau hyn ddarparu ystod ehangach o sefydliadau lleoliad a phrofiad i fyfyrwyr, y mae pob un ohonynt yn werthfawr.

### Modelau Lleoliad Hyblyg

Gallai gweithredu modiwlau lleoliad hyblyg a all addasu i wahanol sefydliadau ac anghenion myfyrwyr gynnwys; ystyried lleoliadau rhan amser, lleoliadau bloc, cylchdroi rhwng safleoedd a modelau o leoliadau myfyrwyr ar y cyd megis y model CLiP.

### Teleiechyd a Lleoliadau o Bell

Mae'n bosibl defnyddio teleiechyd a lleoliadau o bell i ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu â gofal cleifion a chydweithio rhyngbroffesiynol. Gall yr ymdriniaeth hon hefyd helpu i oresgyn rhwystrau daearyddol a chynyddu mynediad at leoliadau mewn ardaloedd heb eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae daearyddiaeth yn rhwystr sylweddol a nodir gan geiropractyddion sy'n dymuno ymgysylltu â gweithgaredd lleoliad.

### Lleoliadau Rhyngbroffesiynol

Mae datblygu lleoliad rhyngbroffesiynol, lle gall myfyrwyr ceiropracteg weithio ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill yn ffordd wych i ddatblygu dysgu rhyngbroffesiynol ystyrlon (IPL), cynyddu capasiti lleoliad a chyfoethogi dealltwriaeth myfyrwyr o ymarfer cydweithredol.

### Lleoliadau yn y Gymuned

Mae archwilio lleoliadau yn y gymuned mewn lleoliadau annhraddodiadol, megis ysgolion, clybiau chwaraeon neu glybiau cymdeithasol yn gwella amrywiaeth lleoliad. Gallai'r rhain fod yn 'ddigwyddiadau' tymor byrrach, yn hytrach na chyfleoedd lleoliad tymor hir. Gall y cyfleoedd hyn gynnig profiadau dysgu gwerthfawr a hyrwyddo gofal ceiropracteg o fewn y gymuned.

## Modelau lleoliad arloesol

Mae llawer o broffesiynau gofal iechyd yn edrych yn barhaus i wella capasiti pan ddaw hi at leoliadau clinigol ac yn y blynyddoedd diweddar mae hyn wedi gyrru arloesedd. Mae llawer o ddarparwyr addysg wedi cofleidio datblygiadau mewn technoleg a'r gofod digidol i feithrin arloesedd. Defnyddiwyd cefnogaeth cyfoedion hefyd fel offeryn i gyflawni mwy â'r un capasiti. Isod y mae ychydig enghreifftiau o fodelau lleoliad arloesol.

### Dysgu Cydweithredol ar Waith (CLiP)

Mae'r model hwn yn cynnwys dysgu rhwng cyfoedion, lle bydd myfyrwyr yn rhannu cyfrifoldeb a phrofiad yn y lle cyntaf ac yn symud ymlaen i brofiad unigol dros amser. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol yn gynnar yn siwrnai ddysgu'r myfyriwr.

### Lleoliadau Rolau sy'n Ymddangos

Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys myfyrwyr yn gweithio mewn lleoliadau lle nad yw gofal ceiropracteg yn cael ei ddarparu'n draddodiadol, megis mentrau iechyd cyhoeddus neu raglenni llesiant. Mae'r model hwn yn gysylltiedig â'r dysgu rhyngbroffesiynol a'r lleoliadau yn y gymuned a grybwyllwyd yn flaenorol.

### Gwasanaethau Arbenigol Integredig.

Yn y model hwn, mae myfyrwyr ceiropracteg yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill i gyflwyno gwasanaethau arbenigol megis gofal neu gyngor chwaraeon neu i'r henoed. Mae'r dull rhyngbroffesiynol hwn yn cyfoethogi sgiliau clinigol myfyrwyr a dealltwriaeth o amgylcheddau gofal arbenigol. O bosibl ei bod hi'n haws hefyd ei sefydlu fel gwasanaeth 'naid'.

### Profiadau Dysgu Grŵp

Trefnu profiadau dysgu grŵp o fewn lleoliadau megis trafodaethau, rowndiau, neu gyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth. Gallai hyn gynnwys trafodaethau grŵp ar-lein fel rhan o drafodaeth ar sail achos rhithwir sy'n haws eu sefydlu, eu cyflwyno a'u rheoli.

### Teleiechyd a Lleoliadau Rhithwir

Gall defnyddio technolegau o bell i roi profiad i fyfyrwyr o ofal cleifion o bell a mentrau iechyd digidol fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth i'r dulliau hyn ddod yn fwy cyffredin eu defnydd.

Wrth i'r galw am brofiad lleoliad gynyddu mae'n hanfodol fel proffesiwn i gofleidio arloesedd i wasanaethu anghenion dysgwyr ac ymdrechu'n gyson am brofiadau dysgu o ansawdd uchel. Mae gorgyffwrdd addysg yn effeithiol i mewn i'r gymuned trwy leoliad hefyd yn ffordd werthfawr o hyrwyddo'r proffesiwn a chefnogi cymunedau lleol.


## Ariannu ac ystyriaethau cynaliadwyedd

Mae sicrhau cynaliadwyedd lleoliad clinigol yn gofyn am gynllunio gofalus a dyrannu adnoddau. Mae ystyriaethau ariannu yn hanfodol i gefnogi datblygiad a chynnal cyfleoedd lleoliad o ansawdd uchel.

- **Modelau Ariannu:** Nid yw lleoliadau ceiropracteg yn denu tariff gan gyllidwyr GIG ar hyn o bryd. Rhaid i sefydliadau ystyried eu gallu i ariannu lleoliadau neu ddatblygu partneriaethau sy'n gynaliadwy heb ariannu. Yn yr achos hwn, dylid rhoi ystyriaeth i lefel yr ymrwymiad a'r ymgysylltiad sydd gan ddarparwyr pan nad yw ariannu ar gael.

- **Ymarferion Cost Effeithiol:** Gweithredu ymarferion cost effeithiol i uchafu ar ddefnydd o'r adnoddau sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys uchafu ar amserlenni lleoliad, a defnyddio'r modelau arloesol sy'n gofyn am lai o wariant ariannol.

- **Gwerthusiad Parhaus:** Gwerthuso'n rheolaidd effeithiolrwydd a chynaliadwyedd rhaglenni lleoliad. Defnyddio adborth gan fyfyrwyr, addysgwyr a darparwyr lleoliad i adnabod meysydd gwelliant a sicrhau llwyddiant hirdymor y rhaglenni. Gellir defnyddio hyn o fewn sefydliadau i ystyried ble y dylid lleoli'r ariannu i sicrhau'r budd addysgol uchaf.



# 6. Ymgysylltu'r proffesiwn ag addysg

## Cynigion Datblygiad Proffesiynol Parhaus

ae addysg lleoliad clinigol, boed hynny mewn lleoliadau ar y safle neu leoliadau practis yn y maes, yn dibynnu ar barodrwydd clinigau/safleoedd i gynnal lleoliadau (ar gyfer lleoliadau practis) a pharodrwydd a gallu clinigwyr i fod yn addysgwyr (ar gyfer yr holl leoliadau clinigol).

Mae ysgogwyr, rhwystrau a hwyluswyr a nodir i ddod yn addysgwr o ar draws proffesiynau iechyd eraill [16] yn gyson â'r safbwyntiau a gasglwyd gan y CCC gan geiropractyddion [17]. Gallai gwybodaeth am ysgogwyr a hwyluswyr hysbysu gweithgareddau lleol ac ehangach yn ddefnyddiol i hyrwyddo cynnwys y proffesiwn ym maes addysg. Gallai mynd i'r afael â rhwystrau oresgyn amharodrwydd ymhlith ceiropractyddion i ymgysylltu ag addysg.

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai ystyriaethau wedi'u hysbysu gan dystiolaeth ar gyfer cynnwys y proffesiwn ym maes addysg, gan gynnwys:

1) Rôl Datblygiad Proffesiynol Parhaus fel ysgogwr ar gyfer ymgysylltu
2) Datblygu cymuned ymarfer ar gyfer addysgwyr clinigol
3) Strategaethau cyfathrebu ar gyfer meithrin ymgysylltiad proffesiynol.

### Rôl Datblygiad Proffesiynol Parhaus wrth ymgysylltu â'r proffesiwn yn lleol

Ymhlith yr ysgogwyr ar gyfer ymgysylltu ag addysg y mae cyfrannu at ddatblygiad personol eu hunain a chael cyfleoedd i gadw'n gyfredol â'r wybodaeth ddiweddaraf, tra bod hwyluswyr yn cynnwys rhoi cyfleoedd ar gyfer cyfnewid gwybodaeth ar y cyd, a rhoi hyfforddiant a chysylltiadau pellach â chydweithwyr [16, 17]. Awgryma hyn y gallai cynnig cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus, sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddiweddaru gwybodaeth glinigol a meithrin rhwydweithiau proffesiynol gynnig gwerth sy'n helpu i gynnwys y proffesiwn ym mentrau addysgol.

## Datblygu Cymuned Ymarfer ar gyfer addysgwyr clinigol

Amlinella adran hon y pecyn cymorth y ffactorau a allai gyfrannu at ddatblygu Cymuned Ymarfer ar gyfer addysgwyr clinigol. Mae'n trafod rôl agwedd clinigwyr tuag at addysg, yr angen i dangos bod addysgwyr yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, yr angen i adnabod a mynd i'r afael â rhwystrau canfyddedig at ymgysylltu â lleoliadau practis a buddion hyrwyddo cymuned ehangach o ymarfer ymhlith addysgwyr clinigol y tu hwnt i ardal leol sefydliadau unigol. Mae'r wybodaeth a ystyrir yma yn hysbysu'r strategaeth gyfathrebu a amlinellir yn yr adran a ganlyn.

### Meithrin agwedd gadarnhaol tuag at addysg

Mae adnabod addysg a chael agwedd gadarnhaol tuag ato yn ysgogwr allweddol i glinigwyr sy'n ymgysylltu ag addysg. Gallai datblygu cymuned ymarfer ar gyfer addysgwyr clinigol feithrin ysgogwyr o'r fath, gan gyfrannu at ddiddordeb ym maes addysg ac ymgysylltu a chadw addysgwyr clinigol. Ymhlith yr ysgogwyr penodol y mae:

- Mewn perthynas â lleoliadau practis, ystyried bod y rhain yn rhoi profiad clinigol gwerthfawr i fyfyrwyr yn y byd go iawn ac yn galluogi'r ceiropractydd i 'gyfrannu'n ôl i'r proffesiwn'
- Cael cyfle i fod yn rhan o addysg, a chymryd perchnogaeth ohono
- Deall bod y cwricwlwm yn addas i gefnogi proffesiwn sy'n newid
- Cred bod y cwricwlwm a'i ddeilliannau dysgu yn cyd-fynd â natur yr ymarfer [20]
- Teimlo'n alluog i hyrwyddo clinigwyr y dyfodol
- Rhagdybiaethau a pherthnasau cadarnhaol ar y cyd rhwng y sefydliad ac addysgwyr clinigol

Awgryma'r canfyddiadau hyn y bydd datblygu cymuned ymarfer gref ar gyfer addysgwyr clinigol yn cael ei chefnogi os yw sefydliadau yn ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â nhw i ddatblygu a chyfoethogi cwricwlwm, gan gynnwys sicrhau bod addysgwyr clinigol yn gwybod sut y mae eu mewnbynnau yn cael eu hystyried. Dylid cael cyfathrebu ac esboniadau clir o'r deilliannau dysgu, y dulliau addysgu a dysgu, a'u rhesymeg o ran gofynion ymarfer clinigol cyfoes.

### Dangos bod addysgwyr yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi

Mae ysgogwyr a hwyluswyr i glinigwyr ymgysylltu ag addysg yn ymwneud â pha mor barod ydynt, ac a ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi yn eu rolau fel addysgwyr[16], gan gynnwys:

- Rhagdybiaethau a pherthnasau ar y cyd gyda sefydliadau
- Eu parodrwydd canfyddedig ar gyfer addysgu[19];
- A oes ganddynt fodelau rôl addysgu o'u hyfforddiant cynnar eu hunain[19]
- Derbyn cydnabyddiaeth a gwobrau mewnol[19]
- Derbyn adborth ffurfiol
- Mentoriaeth gan addysgwyr mwy profiadol
- Cael eglurder ar yr hyn fydd yn ofynnol ohonynt, arweiniad gan y darparwr, a mecanweithiau datblygu a chefnogi clir ac effeithiol

Mae pwyslais cryf ar yr angen am ddysgu a datblygu addysgwr yn glir ar gyfer y rheini sy'n gysylltiedig â lleoliadau practis [17]. Gallai datblygu CoP yn lleol ar gyfer addysgwyr clinigol elwa hefyd o sicrhau bod mecanweithiau ar waith i adnabod a chefnogi anghenion amrywiol addysgwyr clinigol yn eu rolau a hefyd cael modd o adnabod y cyfraniad gwerthfawr maen nhw'n ei wneud.

### Ystyried a mynd i'r afael â rhwystrau canfyddedig at ymgysylltu ag addysg lleoliad practis

Mae rhwystrau at *ymgysylltu ag addysg lleoliad clinigol mewn practis yn* cynnwys:

- Peidio â derbyn digon o amser, lle, adnodau i fyfyrwyr a chymorth gweinyddol i fodloni'r gofynion [41]
- Pryderon am fethu gallu trin yr un nifer o gleifion a'r colli incwm cysylltiedig, ynghyd ag aflonyddwch posibl i weithrediadau practis [52].
- Perthynas hierarchaidd canfyddedig o fewn addysg glinigol
- Datblygiad cyfadran cyfyngedig
- Gwybodaeth anghyflawn am ddisgwyliadau addysgwr lleoliad clinigol
- Datgysylltiad o'r darparwr addysg a diffyg mentoriaid
- Straen sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau ar gyfer lleoliadau, megis gallu sicrhau llwyth achosion digonol ar gyfer myfyrwyr
- Risgiau i gleifion, eu canlyniadau a'u bodlonrwydd
- Risg i enw da busnes os ydynt yn cynnal myfyriwr nad yw'n perfformio'n dda

Er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth sy'n gwerthuso'r problemau hyn, mae dangosyddion gan weithwyr proffesiynol iechyd eraill nad oes tystiolaeth er gyfer rhai o'r pryderon hyn o ran pryderon ariannol, bodlonrwydd cleifion a chanlyniadau cleifion.  Bydd datblygiad lleol o'r CoP ar gyfer addysgwyr clinigol yn gofyn am fynd i'r afael â'r rhwystrau a'r pryderon hyn, a hynny wrth gynllunio'r model lleoliad clinigol ac wrth fynegi sut y mae'r rhwystrau hyn yn cael eu hystyried a'u goresgyn (gweler y strategaeth gyfathrebu, isod)

### Budd Cymunedau Ymarfer ehangach

Ynghyd â CoP lleol ar gyfer addysgwyr clinigol (yn canolbwyntio ar sefydliad penodol), mae'n debyg y bydd budd hefyd i ddatblygu'r CoP yn ehangach ar draws y proffesiwn gan y gallai hyn gyfrannu at ddiwylliant sy'n gosod gwerth cynyddol ar gymryd rhan mewn addysg. Un adnodd sy'n cefnogi hyn yw'r Safonau Addysgwyr Lleoliad Fforwm Deoniaid Ceiropracteg (2025) a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Goleg Brenhinol Ceiropractyddion. Mae hyn yn cynnig fframwaith awdurdodol ar draws y proffesiwn yn ffurfioli disgwyliadau o'r hyn y mae'n ofynnol i addysgwyr lleoliad ei wneud a beth yw cyfrifoldebau darparwyr tuag at gefnogi addysgwyr lleoliad.

## Strategaethau cyfathrebu ar gyfer meithrin ymgysylltiad proffesiynol

Mae ystyried y wybodaeth uchod am yr hyn sy'n hysbys am resymau ceiropractyddion dros ymgysylltu; neu beidio ag ymgysylltu ag addysg lleoliad clinigol yn awgrymu y dylai strategaethau cyfathrebu ar gyfer meithrin ymgysylltiad proffesiynol:

1) **Godi ymwybyddiaeth trwy gyfathrebu datblygiadau mewn addysg ceiropracteg**

   Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am raglenni newydd neu welliannau ac arloesiadau, yn enwedig mewn perthynas â dysgu drwy brofiadau clinigol, gan gynnwys lleoliadau.

2) **Cyfathrebu'r buddion i glinigwyr o ymgysylltu ag addysg**

   Gallai hyn gynnwys negeseuon wedi'u cefnogi gan dystiolaeth ymchwil a safbwyntiau addysgwr ceiropracteg a amlinellir yn yr adran flaenorol ar CoP. Gallai hyn gynnwys: gwerth cyfrannu at ddatblygu ceiropractyddion y dyfodol, gan gynnwys budd i fyfyrwyr o ennill profiad ymarfer yn y byd go iawn; cyfleoedd i rannu profiad clinigol eu hunain; datblygiad personol a phroffesiynol, gan gynnwys cadw'n gyfredol a rhannu gwybodaeth ag eraill a datblygu sgiliau addysgol; cyfleoedd i fod yn rhan o gynllunio a datblygu cwricwlwm i fodloni gofynion ymarfer cyfoes.

3) **Cyfathrebu'n glir yr hyn y mae rolau addysgwr clinigol yn ei olygu, yr hyn sy'n ofynnol a pha gefnogaeth sydd ar gael**

   Gallai hyn gynnwys: manylion clir o'r oriau gofynnol; ymrwymiadau hyfforddi a datblygu gofynnol; nifer y myfyrwyr a fydd ar leoliadau a nifer a natur y cleifion a chyfleoedd dysgu y bydd angen eu darparu; natur rhyngweithiadau â myfyrwyr a'r ymwneud yng ngofal cleifion; y mecanweithiau cefnogaeth sydd ar gael i addysgwyr clinigol (a allai gynnwys ffynonellau arweiniad, mentora, sut i geisio cymorth, sut i godi pryderon am fyfyriwr a sut y bydd hyn yn cael ei reoli). Ystyried defnyddio cyhoeddiad Coleg Brenhinol y Ceiropractyddion: *Safonau Addysgwyr Lleoliad Ceiropracteg 2025*.

4) **Mynd i'r afael â rhwystrau canfyddedig penodol at ymgysylltu**

   Lledaenu gwybodaeth sy'n cydnabod pryderon hysbys yn weithredol a bod yn benodol am sut y bydd y rhain yn cael eu lliniaru neu eu rheoli. Ystyried darparu Cwestiynau Cyffredin clir am y pryderon hyn, gydag atebion (Ar gyfer rhai pryderon, gallai hyn gynnwys rhoi sicrwydd ar sail y dystiolaeth). Rhoi cyfleoedd clir i rwystrau neu bryderon gael eu codi gan geiropractyddion a'u trafod yn uniongyrchol â darparwyr.

5) **Cyfathrebu cydnabyddiaeth a llwyddiannau addysgwyr clinigol**

6) **Cynnwys o fewn negeseuon cyfathrebu ystod o randdeiliaid a all siarad o brofiad**

   Gallai hyn gynnwys safbwyntiau a phrofiadau gan fyfyrwyr, addysgwyr sy'n geiropractyddion sy'n ymarfer, a chleifion mewn lleoliadau addysg.

7) **Defnyddio cyfryngau cyfathrebu y mae ceiropractyddion sy'n ymarfer yn eu defnyddio'n rheolaidd i gadw'n gyfredol â materion ymarfer**

   Gallai hyn gynnwys fideos byr, gweminarau, rhwydweithiau cyfryngau cymdeithasol clinigwyr a chyhoeddiadau.



# 7. Rhestr Wirio a Awgrymir ar gyfer Archwilio

## Rhestr Wirio Archwilio Lleoliad Clinigol:

- A oes polisi Iechyd a Diogelwch addas ar waith? ◯
- A oes polisi adrodd am ddigwyddiadau / damweiniau addas wedi'i greu? ◯
- A oes asesiad risg wedi'i gynnal sy'n cynnwys myfyrwyr? ◯
- A oes polisi Rheoliad Ymbelydredd ïoneiddio wedi'i sefydlu (os yw'n berthnasol)? ◯
- A oes polisi cyfrinachedd a chydsyniad ar waith? ◯
- A oes polisi cyfle cyfartal ar waith? ◯
- A oes polisi atal a rheoli haint ar waith? ◯
- A yw arwyddion COSHH yn cael eu defnyddio'n briodol ac ar waith? ◯
- A oes polisi gweithiwr unigol ar waith? ◯
- A oes polisi gweithdrefnau tân / argyfwng ar waith? ◯
- A oes proses bwlio ac aflonyddu i'w gweld yn glir? ◯
- A yw gweithdrefnau codi ac uwchgyfeirio pryderon / chwythu'r chwiban ar waith yn glir ac yn cael eu lledaenu'n briodol? ◯
- A oes gwerthusiad o'r holl addysgwyr lleoliad rheoledig wedi'i gynnal yn erbyn y gofrestr briodol? ◯
- A yw'r holl yswiriannau priodol ar waith fel sy'n ofynnol? ◯

## Dolenni ac adnoddau pwysig

Safonau Addysg CCC 2023

Cyngor Atodol i'r Safonau Addysg 2023: Lleoliadau Clinigol

Safonau Addysgwyr Lleoliad Ceiropracteg RCC 2025

1. General Chiropractic Council. Education Standards. 2023, General Chiropractic Council: London, England.

2. Organization, W.H., Framework for action on interprofessional education and collaborative practice. 2010: Geneva: WHO Press.

3. Organization, W.H., State of the World Nursing Report. 2020: Geneva: WHO Press.

4. Irby, D. and M.B.B. Cooke, Calls for reform of medical education by the Carnegie Foundation for the Advancement of Teaching: 1910 and 2010. 2010: Acad Med. p. 220-227.

5. Mackintosh-Franklin, C., Pedagogical principles underpinning undergraduate nurse education in the UK: a review. 2016: Nurse Educ Today. p. 118-122.

6. Kolb, D., Experiential learning: experience as the source of learning and development . 2nd ed. 2014: Upper Saddle River NJ: Pearson FT Press.

7. Council, G.C., Supplementary Advice to the Education Standards 2023: Clinical Placements. 2023: London, United Kingdom: General Chiropractic Council.

8. Physiotherapy, C.S.o., R.C.o.O. Therapists, and e. al, AHP Principles of practice-based learning. Chartered Society of Physiotherapy.

9. Interprofessional Education Collaborative. (2023). Core competencies for interprofessional collaborative practice. Version 3. 2023, Interprofessional Education Collaborative: Washington, DC: Interprofessional Education Collaborative.

10. Patel, H., et al., A scoping review of interprofessional education in healthcare: evaluating competency development, educational outcomes and challenges. BMC Medical Education, 2025. 25(1): p. 409.

11. Allvin, R., C. Thompson, and S. Edelbring, Variations in measurement of interprofessional core competencies: a systematic review of self-report instruments in undergraduate health professions education. J Interprof Care, 2024. 38(3): p. 486-498.

## Sut fyddech chi'n sgorio'r ddogfen hon?



Cliciwch wyneb, neu sganiwch y cod QR i rannu'ch barn

General Chiropractic Council
Park House
186 Kennington Park Road
London
SE11 4BT

Telephone: +44 (0)20 7713 5155
Website: www.gcc-uk.org
LinkedIn: general-chiropractic-council
YouTube: @GenChiroCouncil
W3W: gains.fairly.rang

Cyngor Ceiropractig Cyffredinol

Cyhoeddwyd ym mis Medi 2025